



[www.ucac.cymru](http://www.ucac.cymru)

## **Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi**

### **Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad**

Eich enw: Iona A. Davies

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn: 01970 639950

Eich cyfeiriad: Swyddfa UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 20 Gorffennaf 2023 i:

Cefnogi Cyflawniad a Diogelu  
Is Adran Tegwch mewn Addysg  
Y Gyfarwyddiaeth Addysg  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: [ccd.sas@llyw.cymru](mailto:ccd.sas@llyw.cymru)

**Cwestiwn 1** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth addas, ddefnyddiol ac ymarferol i arweinwyr, athrawon ac ymarferwyr eraill mewn ysgolion, unedau cyfeirio disgyblion a lleoliadau addysg heblaw yn yr ysgol er mwyn galluogi ysgolion a chyrrff llywodraethu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

<b>Ydynt</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
--------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

#### Sylwadau ategol

**Mae'r canllawiau drafft hyn yn rhoi'r wybodaeth briodol ac mae'n ddogfen gynhwysfawr. Mae'n rhoi ystyriaeth i ffactorau megis costau byw cynyddol a'r sefyllfa sy'n bodoli wedi'r pandemig, felly mae'n gyfredol iawn. Tybed a fyddai modd cyflwyno'r wybodaeth mewn ffurf mwy cryno neu fwy gweledol (e.e. siartiau llif), gan ddilyn patrwm tudalen 49? O wneud hynny, tybiwn y byddai'r ddogfen yn fwy 'ymarferol' ac yn gliriach a byddai'n ganllaw defnyddiol iawn i gyrrff llywodraethol ac athrawon.**

**Cwestiwn 2** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldeb cyfreithiol yr ysgol a'r llywodraethwyr yn glir?

<b>Ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

#### Sylwadau ategol

**Mae'r gofynion cyfreithiol wedi'u nodi'n glir ym mharagraff cyntaf tudalen 18. Yr hyn sy'n llai clir yw a yw'r pwyntiau bwled ar dudalen 18 yn ofynion cyfreithiol ynteu yn enghreifftiau o arfer dda. Mae'r wybodaeth ar dudalennau 18 ac 19 yn cynnwys rhai pethau sy'n statudol a rhai pethau sy'n arfer dda. A fyddai'n syniad i'w cyflwyno ar wahân, gan nodi'r materion o dan ddau bennawd 'beth sy'n statudol' a 'beth a argymhellir'? Byddai cael tabl ar wahân yn crynhoi'r codau gwahanol a phryd y dylid eu defnyddio hefyd yn ddefnyddiol.**

**Cwestiwn 3** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn amlinellu cyfrifoldebau'r awdurdod lleol yn glir?

<b>Ydynt</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
--------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

#### Sylwadau ategol

**Mae'r wybodaeth ar dudalen 28 ac o dudalen 42 ymlaen yn amlinellu'n glir beth yw cyfrifoldebau'r awdurdod lleol. Mae'r wybodaeth wedi ei chofnodi'n fanwl iawn ac rwy'n siŵr y byddai ysgolion yn gwerthfawrogi fersiwn gryno i gyd-fynd gyda'r ddogfen hon. Mae'r pwyntiau bwled ar dudalennau 46-47 yn ddefnyddiol iawn ac mae'r siart llif ar dudalen 49 i'w groesawu.**

**Cwestiwn 4** – A oes ymdriniaeth ddigonol o'r ffactorau sy'n cyfrannu a'r nifer mawr o resymau posibl dros absenoldeb?

Oes	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Ceir rhestr gynhwysfawr sydd wedi ei gosod allan yn glir.**

**Cwestiwn 5** – A yw dysgwyr â nodweddion gwarchoddedig wedi'u cynnwys?

Ydynt	<input type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-------	--------------------------	-----------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

**Sylwadau ategol**

**Ymddengys fod pawb wedi'i gynnwys, ond tybed a oes digon o sylw i ddisgyblion ag ADY. Mae'n siŵr bod sefyllfaoedd yn gallu codi lle mae cyflyrau yn dirywio a darpariaeth a diffyg adnoddau mewn ysgolion yn ei gwneud hi'n heriol i ddisgyblion fynychu'r ysgol. Er enghraifft, mae adeiladau rhai ysgolion yn ei gwneud hi'n heriol i ddisgyblion fynychu'r ysgol. Yn yr un modd, nid oes ddigon o sylw'n cael ei roi i rieni/disgyblion sy'n wynebu heriau ieithyddol e.e. disgyblion a rhieni sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.**

**Cwestiwn 6** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi digon o wybodaeth er mwyn i rieni a gofalywyr ddeall eu cyfrifoldeb statudol am sicrhau bod eu plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn?

Ydynt	<input type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-------	--------------------------	-----------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

**Sylwadau ategol**

**Mae'n dweud yn glir bod cyfrifoldeb statudol ar rieni i sicrhau bod eu plant 'yn cael addysg sy'n briodol i'w hoedran, eu gallu ...' a bod hyn yn cael ei wireddu drwy 'bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol'. A fyddai'n syniad nodi yn y fan hon (tudalen 5), beth yw'r diffiniad o 'rheolaidd'? (Mae cyfeiriadau meintiol yn digwydd mewn manau eraill yn y ddogfen, ond teimlwn y byddai rhoi canran benodol fel canllaw yn y fan hon yn grymuso'r neges ac yn ei gwneud yn fwy clir). A fyddai'n syniad hefyd nodi beth yw'r canlyniadau i rieni os na fyddant yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn?**

**Cwestiwn 7** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn cael eu hesbonio'n glir? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

Oes	<input type="checkbox"/>	Nac oes	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input checked="" type="checkbox"/>
-----	--------------------------	---------	--------------------------	--------------	-------------------------------------

**Sylwadau ategol**

**Mae'n ddogfen gynhwysfawr, ond tybed a ellid nodi'r wybodaeth mewn dull haws ei ddilyn e.e pwyntiau bwled, siartiau llif ayb. Mae un enghraifft o siart ar dudalen 49 ac mae hyn i'w groesawu.**

**Cwestiwn 8** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn hawdd eu defnyddio? Os nad ydynt, pa feysydd y gellid eu gwella a pham? A oes agweddau rydych yn eu hoffi'n benodol, ac os felly, pam?

<b>Ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

**Sylwadau ategol**

**Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mae'n ddogfen gynhwysfawr, ond weithiau gellid gosod y wybodaeth allan mewn ffordd a fyddai'n haws ei deall. Mae rhestru pethau ar ffurf pwyntiau bwled byr mewn rhai mannau yn y ddogfen yn hwyluso'r deall fel y mae unrhyw siartiau gweledol.**

**Cwestiwn 9** – Ar raddfa o 1 i 5 (lle mae 1 yn golygu 'ddim o gwbl' ac mae 5 yn golygu 'defnyddiol iawn') pa mor ddefnyddiol yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eich barn chi? A oes unrhyw welliannau yr hoffech eu gweld?

1	<input type="checkbox"/>	2	<input type="checkbox"/>	3	<input type="checkbox"/>	4	<input checked="" type="checkbox"/>	5	<input type="checkbox"/>
---	--------------------------	---	--------------------------	---	--------------------------	---	-------------------------------------	---	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Byddai'n werth cael fersiwn gryno o'r ddogfen hon (fel cydymaith i'r ddogfen hon) a fyddai'n cynnwys y prif bwyntiau ac a allai fod yn ddogfen gyfeirio i athrawon dosbarth e.e. rhestr o'r codau mewn tabl, gydag enghreifftiau o pryd mae defnyddio'r amrywiol godau.**

**Cwestiwn 10** – A yw'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn rhoi gwybodaeth ddigonol mewn perthynas â'r canlynol:

- i. esbonio'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu y dylid eu mabwysiadu i wella lefelau ymgysylltu a phresenoldeb dysgwyr?

<b>Ydynt</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
--------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Mae'r ddogfen yn nodi'n glir beth yw'r egwyddorion a'r dulliau gweithredu ac yn eu dosbarthu dan chwe elfen. Nodir bod y rhesymau yn 'gymhleth ac amrywiol' ac mae hyn i'w groesawu. Croesewir hefyd y datganiad 'Y ffordd fwyaf effeithiol**

**o wella presenoldeb yw pan fydd yr ysgol yn mabwysiadu nifer o ddulliau ac ymyriadau sy'n ategu ei gilydd ac sy'n gorgyffwrdd. Teimlir y byddai'r adran 'Meithrin cydberthnasau, diwylliant ac ethos cadarnhaol' yn cael ei grymuso pe rhoddid pwyslais ar y ddwy elfen o barch - dangos parch a derbyn parch. Er bod y ddogfen yn nodi pwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd, teimlwn nad oes unrhyw gyfarwyddiadau na chanllawiau penodol sut mae ymdrin â theuluoedd nad ydynt yn deall y Gymraeg na'r Saesneg.**

ii. nodi'r ffactorau sy'n cyfrannu a all effeithio ar bresenoldeb?

<b>Ydynt</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
--------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Mae'r ddogfen yn nodi'n glir beth yw'r ffactorau sy'n gallu effeithio ar bresenoldeb.**

iii. cyfeirio at ragor o wybodaeth ac arferion da?

<b>Ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input checked="" type="checkbox"/>
--------------	--------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	-------------------------------------

**Sylwadau ategol**

**Ceir nifer o bwyntiau bwled sy'n rhoi syniadau sut i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phresenoldeb, ond buasem yn hoffi gweld mwy o fanylder a sut mae ymdrin ag oblygiadau rhai o'r syniadau hyn e.e. sut mae ariannu 'mentor' ar gyfer disgyblion â phresenoldeb isel, pwy sy'n gyfrifol am glybiau 'dal i fyny' amser cinio. Buasai cyfres o astudiaethau achos yn werthfawr. Tybir bod rhai o'r syniadau yn ymddangos yn rhy simplistig. Mae disgwyl i ddisgyblion sydd wedi bod yn absennol fynd i glwb dal i fyny amser cinio yn ymddangos yn syniad da ar bapur. Fodd bynnag, pan fo disgybl/rhieni disgybl yn dadlau bod angen ei amser chwarae/cinio ar y disgybl a bod yr amser hwnnw'n bwysig i gymdeithasu ac adfer cylch cyfeillgarwch yn dilyn cyfnod o absenoldeb, mae nifer o'r datrysiadau hyn yn mynd yn heriol iawn. Rhaid cofio hefyd na ellir disgwyl i athrawon aberthu amseroedd cinio i gynorthwyo disgyblion. Mae gan athrawon yr hawl i gael egwyl yn ystod y diwrnod ysgol – yn wir mae'n hawl sylfaenol.**

iv. cofnodi a dadansoddi data ar bresenoldeb?

<b>Ydynt</b>	<input checked="" type="checkbox"/>	<b>Nac ydynt</b>	<input type="checkbox"/>	<b>Ddim yn siŵr</b>	<input type="checkbox"/>
--------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	---------------------	--------------------------

**Sylwadau ategol**

**Fel y nodwyd eisoes, byddai'n dda pe bai'r codau absenoldeb yn cael eu rhoi at ei gilydd ar ffurf tabl syml a fyddai'n hwylus i athrawon gyfeirio ato.**

v. ymgysylltu â theuluoedd a chymorth amlasiantaethol?

Ydynt	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--------------	--------------------------

#### Sylwadau ategol

**Mae cyfarwyddiadau clir yma ynghylch ymgysylltu gyda theuluoedd, ond efallai fod lle i fynd i fwy o fanylder ynghylch y prosesau i'w dilyn pan fo teuluoedd yn amharod i ymgysylltu neu efallai fod yna heriau i ymgysylltu â hwy (e.e. heriau ieithyddol).**

vi. rheoli absenoldeb yn ffurfiol?

Ydynt	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydynt	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-------	-------------------------------------	-----------	--------------------------	--------------	--------------------------

#### Sylwadau ategol

**Mae'r cyfarwyddiadau'n glir beth y dylid ei wneud mewn achosion o'r fath.**

**Cwestiwn 11** – At ddibenion ystadegol, mae absenoldeb cyson wedi ei ddiffinio yng Nghymru fel absenoldeb am dros 20% o sesiynau hanner diwrnod mewn ysgolion. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylid diwygio'r diffiniad ystadegol o absenoldeb cyson i dros 10% o sesiynau, sef y diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn Lloegr ar hyn o bryd. Ydych chi'n cytuno ai peidio â'r cynnig hwn a pham?

Ydw	<input checked="" type="checkbox"/>	Nac ydw	<input type="checkbox"/>	Ddim yn siŵr	<input type="checkbox"/>
-----	-------------------------------------	---------	--------------------------	--------------	--------------------------

#### Sylwadau ategol

**Ymddengys fod hyn yn ddigon teg. Mae'n anodd cael yr union ganran yn gywir. Mae angen sicrhau bod disgyblion 'iach' yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd, ond nad yw rhieni yn teimlo dan fygythiad os nad yw eu plant sy'n wirioneddol dost yn bresennol yn yr ysgol. Ymddengys fod newid y diffiniad yn ddigon rhesymol ac yn gam tuag at hybu a hyrwyddo presenoldeb uchel.**

**Cwestiwn 12** – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

#### Sylwadau ategol

**Mae presenoldeb uchel yn hollbwysig i ddisgyblion o gartrefi di-Gymraeg sy'n mynychu ysgolion cyfrwng Gymraeg. Os mai dim ond yn yr ysgol y maent yn dod i**

**gysylltiad â'r Gymraeg, mae presenoldeb isel yn mynd i gael effaith negyddol ar eu safon yn y Gymraeg.**

**Cwestiwn 13** – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu gallai'r canllawiau drafft 'Perthyn, ymgysylltu a chyfranogi' gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

### **Sylwadau ategol**

**Gweler ateb cwestiwn 12. Yn sgil yr uchod, dylid pwysleisio hefyd pa mor bwysig yw sicrhau darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg i ddisgyblion sydd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ysgolion dwyieithog ac sy'n gorfod cael darpariaeth amgen yn sgil absenoldeb am ba bynnag reswm. Byddai cynnig darpariaeth o'r fath yn y Saesneg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg ac yn gwbl annheg i'r disgyblion.**

**Cwestiwn 14** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch wneud hynny yma:

**Nid oes dim byd i'w adrodd yma.**

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

